

# Cylchlythyr

## Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynol Cymru

### RHIFYN 4

### GORFFENNAF 2020

Mae Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS) yn blanhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau a gyflwynwyd i rannau o'r byd ble na fyddent i'w cael yn naturiol. Gallant ymledu gan achosi difrod i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw. INNS yw'r ail fygythiad mwyaf ar ôl darnio a cholli cynefinoedd.

Amcangyfrifwyd bod INNS yn costio o leiaf £1.8 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, maent yn effeithio'n bennaf ar y sectorau ffermio a garddwriaethol ond gallant effeithio hefyd ar drafnidiaeth, adeiladu, hamdden, dyframaethu a chyfleustodau.

Mae Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) yn ffynhonnell arbenigol ar INNS yng Nghymru. Sefydlwyd y grŵp yn 2008 ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector amgylcheddol a sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill. Cyfarfu'r Grŵp ddiwethaf ar 11 Mawrth 2020.

Dysgwch fwy am y grŵp ar ein gwefan benodedig ar [wefan PBC](#).

### PYNCIAU LLOSG

## Prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN)



Rhai Rhywogaethau Estron Goresgynol. Clymog Japan (i'r dde), Jac y Neidiwr. Credit: GBNNSS.

Mae Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS) yn parhau i fod yn un o'r bygythiadau mwyaf i fioamrywiaeth fyd-eang, ac mae'n effeithio ar iechyd a lles y cyhoedd yn ogystal â'n hecolog gyffredinol. Yn 2010, amcangyfrifodd y Ganolfan Amaethyddiaeth a Biowyddoniaeth Rhyngwladol (CABI) fod cost Rhywogaethau Estron Goresgynol yn £1.7 biliwn i economi Prydain, gyda £125 miliwn o hyn yn cael ei briodoli'n uniongyrchol i Gymru.

Mae'r prosiect, sydd wedi'i ariannu gan grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW) Llywodraeth Cymru, yn agosáu at ddiwedd ei gam datblygu cyntaf. Mae prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) yn ceisio uno Cymru yn ei dull o ddelio â Rhywogaethau Estron Goresgynol.

Yng ngham nesaf y prosiect, mae WaREN yn gobeithio cynghori ar broblemau posib Rhywogaethau Estron Goresgynol yn y dyfodol (adroddiadau gorwel). Bydd y prosiect yn helpu i gyflwyno profiad rhyngwyd siop un stop gydag ardal adrodd gyhoeddus hawdd ei defnyddio a fydd yn helpu i greu ymateb cyflymach i'r gallu i ddelio ag achosion newydd o Rywogaethau Estron Goresgynol. Bydd y siop un stop yn lle i droi iddo am gyngor ar hyfforddiant ac adnoddau ariannu

ac yn lle i gwrdd â grwpiau gweithredu a rhanddeiliaid tebyg sydd o'r un meddylfryd.

Bydd maes hyfforddi a datblygu Grŵp Gweithredu Lleol allweddol yn canolbwyntio ar Fioddiogelwch a bydd hwn yn cael ei hyrwyddo'n helaeth o fewn ymbarél WaREN. Hyd yn hyn, mae Swyddogion Prosiect WaREN wedi rhestru Rhywogaethau Estron Goresgynol â blaenoriaeth, wedi nodi rhanddeiliaid ac wedi cyfweld â Grwpiau Gweithredu Lleol ynghylch eu hanghenion, eu gofynion a'u methodoleg. Mae cynnig hefyd wedi'i gyflwyno ar gyfer cam nesaf WaREN, lle bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu ymhellach a'r cam gweithredu yn dechrau.

Os ydych yn rhan o Grŵp Gweithredu Lleol, yn gweithio ar Rywogaethau Estron Goresgynol neu os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â Swyddog Prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) yma: [Ian.Doyle@northwaleswildlifetrust.org.uk](mailto:Ian.Doyle@northwaleswildlifetrust.org.uk) a dewch i helpu Cymru i frwydro yn erbyn bygythiad rhywogaethau estron goresgynol a gwella bioamrywiaeth ein cenedl er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

## Cyngor Prydain-Iwerddon

Mae swyddogion Rhywogaethau Estron Goresgynol Cyngor Prydain-Iwerddon wedi bod yn cyfarfod bob yn ail flwyddyn er 2013 i archwilio a chytuno ar feysydd cydweithredu ar Rywogaethau Estron Goresgynol. Digwyddodd pedwerydd gweithdy Rhywogaethau Estron Goresgynol Cyngor Prydain-Iwerddon yng Nghaerdydd ar 20/21 Ionawr 2020, a chafodd ei gynnal ar y cyd gan Ysgrifenyddiaeth Cyngor Prydain-Iwerddon a Llywodraeth Cymru.



Roedd pedair prif thema i'r gweithdy: (i) Llwybrau, (ii) Cyfathrebu (iii) Cynlluniau Wrth Gefn ac Ymateb Cyflym (iv) Polisi Rhywogaethau Estron Goresgynol Rhyngwladol. Roedd y gweithdy'n llwyddiannus iawn ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Cytunwyd i gymryd 8 cam gweithredu o'r gweithdy i'w rhoi gerbron Gweinidogion yng nghyfarfod arfaethedig Amgylchedd Cyngor Prydain-Iwerddon, a drefnwyd ar gyfer mis Mai yn Jersey. Oherwydd y pandemig Covid-19 mae hyn wedi'i ohirio tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Legislation & policy

### Deddfwriaeth

Cyhoeddir Cwestiynau Cyffredin wedi'u diweddarar ar Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynol yr UE a Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 yn fuan. Daeth y Gorchymyn Gorfodi a Thrwyddedu i rym ar 1 Rhagfyr 2019.

### Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad: *Rhywogaethau goresgynol estron: mesurau rheoli ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n helaeth yng Nghymru a Lloegr* wedi cau. Mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu hymateb ar y cyd yma:

[https://llyw.cymru/mesurau-rheoli-ar-gyfer-rhywogaethau-goresgynol-estron-sydd-wedi-lledaenun-helaeth-yng-nghymru?\\_ga=2.109488513.56043395.1594714713-1083508331.1582210382](https://llyw.cymru/mesurau-rheoli-ar-gyfer-rhywogaethau-goresgynol-estron-sydd-wedi-lledaenun-helaeth-yng-nghymru?_ga=2.109488513.56043395.1594714713-1083508331.1582210382)

## Y NEWYDDION DIWEDDARAF

### Cranc Manegog Tsieina

Cadarnhawyd bod cranc manegog Tsieina wedi'i weld yn Aber Hafren. Mae cranc manegog Tsieina (*Eriocheir sinensis*) yn Rhywogaeth Estron Oresgynol (IAS), sydd â'r potensial i effeithio'n sylweddol ar wytnwch ecosystemau morol a dŵr croyw yng Nghymru. Mae crancod manegog yn tarddu o ddwyrain Asia ac yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau mewn dŵr croyw a gallant fudo ymhell i'r tir gan ddychwelyd i'r môr i fagu.

Gallant amharu ar ecosystemau, ysglyfaethu ar rywogaethau eraill a'u disodli, difrodi offer pysgota, tyllu i mewn i lannau gan achosi erydiad a chynyddu llwyth gwaddod. Maent wedi difrodi asedau perygl llifogydd mewn gwledydd eraill.



Cranc Manegog Tsieina. Cydnabyddiaeth: FERA

Er bod cranc manegog wedi ei weld, ond heb ei gadarnhau, yn Afon Hafren yn 2015 ger Bryste a bod cragen cranc manegog wedi'i golchi i'r lan ym Mae Abertawe yn 2016, dyma'r adroddiad cyntaf diamheuol ohono yn Afon Hafren. Mae'r adroddiad newydd hwn am granc manegog yn ei lawn dwf yn cadarnhau eu bod yn debygol o fod wedi sefydlu yn Afon Hafren. Ar Afon Dyfrdwy y mae'r unig boblogaeth arall o grancod manegog yng Nghymru.

### Clymog Japan

Roedd cyfarfod diwethaf Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, yn cynnwys sgysiau gan Advanced Invasives a Phrifysgol Abertawe ar eu hymchwil helaeth i Glymog Japan. Arweiniodd hyn at ddiweddariad i'r daflen gwybodaeth gyhoeddus am glymog Japan ynghyd â thaflen wybodaeth am glymog Japan ar gyfer grwpiau cymunedol a fydd yn cael ei chyhoeddi ganol mis Gorffennaf ar dudalennau gwe LIC: [https://llyw.cymru/clymog-japan-cyngor-ar-gyfer-grwpiau-cymunedol-gwirfoddol?\\_ga=2.120619276.56043395.1594714713-1083508331.1582210382](https://llyw.cymru/clymog-japan-cyngor-ar-gyfer-grwpiau-cymunedol-gwirfoddol?_ga=2.120619276.56043395.1594714713-1083508331.1582210382)

## Gwaith Cynllunio Bioddiogelwch CNC ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau

Mae'r prosiect yn brosiect tair blynedd ac fe'i hariennir gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Mae'n edrych ar gynlluniau bioddiogelwch ar gyfer Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a Sarnau (ACA PLAS). Y prif nod yw gweithio gyda rhanddeiliaid lleol er mwyn datblygu cynllun bioddiogelwch morol sy'n lleihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynol morol o fewn ACA PLAS. Mae hyn yn cynnwys casglu tystiolaeth, datblygu cynlluniau gweithredu llwybrau a chynlluniau gweithredu rhywogaethau ynghyd â monitro, rheoli a chymau codi ymwybyddiaeth.

## Dogfen Negeseuon Allweddol

Cwblhawyd dogfen negeseuon allweddol (<https://biodiversitywales.org.uk/File/699/cy-GB>) wedi'i diweddarau er mwyn:

- helpu i ddarparu negeseuon cyson a syml
- helpu i godi ymwybyddiaeth o effeithiau Rhywogaethau Estron Goresgynol yng Nghymru
- hyrwyddo arferion bioddiogelwch da
- galluogi'r cyhoedd i gynorthwyo gyda chofnodi achosion o ganfod Rhywogaethau Estron Goresgynol
- annog camau i'w cymryd er mwyn rheoli ac osgoi lledaenu Rhywogaethau Estron Goresgynol lle bo hynny'n briodol

## HYFFORDDIANT A DIGWYDDIADAU

### Digwyddiadau

#### Wythnos Rhywogaethau Goresgynol 2020

Roedd [Wythnos Rhywogaethau Goresgynol](#) (18-22 Mai 2020) i fod i gynnwys ymweliad ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru gan Weinidog ond, yn anffodus, bu'n rhaid ei ganslo oherwydd Covid-19. Rydym ni'n gobeithio gallu cynnal menter lai yn yr Hydref, ond mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Cysylltwch â Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fel bod eich enw'n cael ei ychwanegu at y rhestr bostio i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

### Hyfforddiant

Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau diogel yn ystod y cyfnod clo:

<http://www.nonnativespecies.org/news/index.cfm?id=347>

Hyfforddiant ar-lein am ddim:

<http://www.nonnativespecies.org/elearning>

## CYSYLLTWCH Â NI



[www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Rhywogaethau-Estron-Goresgynol](http://www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Rhywogaethau-Estron-Goresgynol)



@WBP\_wildlife



[walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)



Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, d/o Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP